

# GWYBODAETH AR GYFER PERCHENOGION A RHEOLWYR TIR NEWYDD

**TAFLEN CALU**  
Tachwedd 2009  
Cyf: 080101



## RHAGARWEINIAD

Os yw rheoli tir yn beth newydd i chi, a'ch bod wedi cael fferm neu dyddyn am y tro cyntaf efallai, mae digon o gefnogaeth ac arweiniad ar gael drwy Cyswllt Ffermio. Gellwch gael gwybod sut i gofrestru ar gyfer y gwasanaeth drwy ffonio 08456 000 813. Mae'r cylchgrawn misol, *Gwlad*, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf o Lywodraeth y Cynulliad am amaethyddiaeth a materion gwledig. Mae ar gael hefyd ar-lein yn [www.wales.gov.uk/gwlad](http://www.wales.gov.uk/gwlad)

Mae yna lawer o faterion y mae angen i reolwr tir newydd eu hystyried; ein nod yma yw rhoi rhestr wirio sylfaenol i chi i'ch rhoi ar ben y ffordd. I gael gwybodaeth bellach am y gwahanol bynciau, cysylltwch â'ch Swyddfa Adrannol leol y Cynulliad, neu â CALU.

## Perchenogaeth a rheolaeth tir

- Gwnewch yn siŵr beth sydd gennych – gofalu bod eich eiddo wedi'i gofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir ([www.landregistry.gov.uk](http://www.landregistry.gov.uk)). Os nad yw wedi'i gofrestru, gwnewch hynny'n syth.
- Ydi'r tir wedi'i gofrestru fel deiliadaeth amaethyddol - oes ganddo rif deiliadaeth (y cyfeirir ato'n aml fel rhif CPH - *County Parish Holding*)? Os nad ydyw, cofrestrwch a chael rhif gan Swyddfa Adrannol leol Llywodraeth y Cynulliad. Bydd amoch angen hynny i hawlio'r Taliad Sengl i Ffermydd (os ydych yn gymwys i'w gael) ac i wneud cais am gefnogaeth amaeth-amgylcheddol.
- Os oes gwrychoedd ac/neu ffensys o amgylch y tir, pwy sy'n berchen arnynt yn ôl gweithredodd y tir? Pwy sy'n gyfrifol am eu cynnal a'u cadw?
- Holwch y Gofrestrfa Tir a'r awdurdod cynllunio lleol i weld a oes unrhyw fforddfreintiau/hawliau tramwy/hawddfrefreintiau/caniatadau/cyfyngiadau etc yn effeithio ar yr eiddo.
- Gofalu bod yn gwybod a yw eich tir mewn Parc Cenedlaethol ai peidio – gall cyfyngiadau arbennig ar gynllunio a rheoli tir fod mewn grym ([www.nationalparks.gov.uk](http://www.nationalparks.gov.uk))
- Os ydych wedi symud i eiddo traddodiadol, edrychwch i weld a ydyw'r tŷ ac/neu unrhyw rai o'r adeiladau wedi eu rhestru gan CADW fel adeiladau hanesyddol ([www.cadw.wales.gov.uk](http://www.cadw.wales.gov.uk)). Os ydynt, bydd cyfyngiadau ar unrhyw addasiadau y dymunwch eu gwneud.
- Edrychwch a oes unrhyw ddynodiadau statudol ar reoli tir mewn grym ar gyfer yr eiddo, e.e. Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI)- holwch Gyngor Cefn Gwlad Cymru ([www.ccw.gov.uk](http://www.ccw.gov.uk)).
- Edrychwch i weld a oes unrhyw safleoedd cadwraeth natur an-statudol ar eich tir. Cyfeirir at y rhain fel rheol fel Safleoedd Bywyd Gwyllt Sirol neu Safleoedd Pwysig ar gyfer Cadwraeth Natur. Gall y Swyddog Bioamrywiaeth neu Ecolegydd Sirol yn yr Awdurdod Lleol roi cyngor i chi ar y rhain.
- Edrychwch i weld a yw'r tir yn dod dan gytundeb amaeth-amgylcheddol fel Tir Gofal neu Tir Cynnal. Mae'r cytundebau hyn yn rhoi cyfyngiadau ar y ffordd y rheolir y tir.
- Os yw eich tir mewn *Nitrate Vulnerable Zone* (NVZ) ni ddylech ddefnyddio mwy o wrtaith nitrogen nag y mae ar eich cnydau ei angen. Mae hyn yn cynnwys tail organig a gwrteithiau artiffisial. Edrychwch i weld a yw eich fferm mewn NVZ a chael mwy o wybodaeth am reolau NVZ drwy edrych ar y mapiau ar wefan Llywodraeth y Cynulliad [www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk). Gellwch weld fersiynau printiedig yn swyddfeydd Llywodraeth y Cynulliad neu gyngor lleol.
- Oes gan y tir dystysgrif ar gyfer cynhyrchu organig? Rheolwr y tir sy'n dal y drwydded organig ond, os yw wedi bod yn organig dan y perchennog/tenant blaenorol efallai na fydd angen cyfnod trosiannol. Efallai na ellwch gael cefnogaeth ariannol ar gyfer newid os yw hyn wedi ei dalu ar y tir i reolwr tir blaenorol. Holwch Gyrrff Ardystio organig a'ch Swyddfa Adrannol.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu  
Gwledig; Ewrop yn Buddsoddi  
mewn Ardaloedd Gwledig  
The European Agricultural Fund for  
Rural Development; Europe Investing in  
Rural Areas



Centre for Alternative Land Use  
Canolfan Ddefnydd Tir Amgen



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

## Dewch i adnabod eich tir – y pethau ymarferol

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod beth yw uchder eich tir uwchlaw lefel y môr. Os oes gennych lethrau, i ba gyfeiriad y maent yn wynebu? Edrychwch ar y coed i weld a oes yna wynt cyffredin cryf yn eu plygu i'r un cyfeiriad. Edrychwch faint o law mae'r tir yn ei gael ar gyfartaledd. Mae mapiau glawiad ar gael – edrychwch yn y llyfrgell gyfeiriadol leol.
- Beth yw **math y pridd**? Ydi o'n asidig, alcalinaidd neu niwtral? Beth yw **ansawdd y pridd** – tywod, clai neu lôm? Beth yw ei statws o ran maetholion pwysig fel ffosforws (P) a potash (K)? Mae prawf pridd yn weddol rhad ond mae'n rhoi gwybodaeth hynod werthfawr ynghylch yr hyn y gall y tir ei gynhyrchu.
- Oes yna unrhyw arwyddion ynghylch **strwythur y pridd**? Ydi'r tir yn sychu'n gyflym neu a oes dŵr yn sefyll? Gellwch gymryd sampl pridd gyda tharadr neu raw i archwilio proffil y pridd (ei haenau o uwchbridd, isbridd etc) ac i edrych am dystiolaeth o gywasgu. Mae yna ffyrdd hawdd hefyd o gyfrif nifer y **pryfed genwair** yn eich tir ar gyfartaledd. Mae nifer dda o bryfed genwair yn arwydd o bridd iach. Mewn pridd cynhyrchiol a ffrwythlon gellir cael mwy na 500 o bryfed genwair y metr sgwâr, mewn pridd gwael mae'n llai na 100.
- Sut mae'r tir wedi cael ei **dddefnyddio yn y gorffennol**? Os mai glaswelltir ydyw, pa fath o blanhigion sy'n tyfu yno? Mae planhigion fel brwyn a hesg yn arwydd o dir gwlyb a dyfrlawn. Mae dail poethion a dail tafol yn arwydd o dir amaethyddol wedi'i reoli'n wael. **Mae gweirgloddiau gwair traddodiadol** a thiroedd pori yn werthfawr iawn am eu hamrywiaeth botanegol ac ni ddylid eu haredig – edrychwch am flodau gwyllt ac amrywiaeth o laswelltau a pherlysiau llydan-ddeiliog. Mae rhygwellt a meillion gwyn yn arwydd fel rheol bod y tir wedi cael ei 'wella' at ddefnydd amaethyddol. Os oes gennych unrhyw amheuan gofynnwch i ymgynghorydd wneud arolwg o'ch glaswelltir.
- Os defnyddiwyd y tir i dyfnu cynydau, pa **fath o gnydau** a dyfwyd arno? Efallai y bydd angen i chi holi cymydog a manteisio ar y cyfle i weld beth mae eich cymdogion **i gyd** yn ei dyfu. Ydi'r tir yn y gymdogaeth yn cael ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer da byw neu rawnfwydydd, ffrwythau neu lysiau? Peidiwch â bod ofn gwneud rhywbeth gwahanol – ond gwnewch yn siŵr bod gennych gymaint o wybodaeth â phosibl cyn mynd ymlaen gyda chynlluniau newydd.
- Mae yna gyfyngiadau ar newidiadau y gellwch eu gwneud i wrychoedd a faint o goed y gellwch eu torri. Efallai y bydd angen caniatâd a thrwyddedau os ydych eisiau codi gwrychoedd neu dorri coed. Holwch eich awdurdod cynllunio lleol a'r Comisiwn Coedwigaeth cyn dechrau unrhyw waith.
- Os ydych yn bwriadu gwneud newidiadau i ddull rheoli'r tir, argymhellir yn fawr i chi gael ymgynghorwr i'ch cynghori. Mae pob tir yn gynefin i blanhigion ac anifeiliaid a bydd angen **Asesiad Effaith Amgylcheddol / Environmental Impact Assessment (EIA)** ar gyfer newidiadau o bwys.
- Os ydych am gadw anifeiliaid fferm, cofrestrwch fel ceidwad gyda'ch Swyddfa Lechyd Anifeiliaid leol. Bydd arnoch angen trwydded i gadw rhai rhywogaethau, megis Moch Gwyllt. Beth bynnag fo'r anifeiliaid y bwriadwch eu cadw, gofalwch bod gennych derfynau cadarn a lle priodol i'w cartrefu **cyn** dod â hwy ar y tir. Cadwch yr holl stoc newydd a ddygir ar y tir ar wahân am gyfnod cyn caniatáu iddynt gymysgu ag anifeiliaid eraill.
- Pa wasanaethau ac adeiladau sydd ar gael ar y tir? Mae dŵr yn hanfodol ar gyfer cynydau a da byw. Oes yna ddŵr prif gyflenwad neu o ffynnon/twl turio? Os yw afon yn ffin i'r tir, oes gennych chi hawl dros y glannau? Oes gennych chi hawl i godi dŵr ohoni? Mae angen gwirio hyn gydag Asiantaeth yr Amgylchedd.
- Gellwch gael copïau o'r codau Ymarfer Amaethyddol Da, yn ymwneud â phridd, aer a dŵr, o'ch Swyddfa Adrannol neu eu lawrlwytho o wefan Llywodraeth y Cynulliad <http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/codesofgoodagripractice/>